**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP**

**Friends of National Museum Wales**
**Cathays Park, Cardiff CF10 3NP**

**Dydd Mercher 17 Awst 2016 am 10.30 yb**
**yn Ystafelloedd Oriel, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

**'The Archaeology of Sustainable Agriculture'**

**Sgwrs Ddarluniedig gan Dr Erika Guttmann-Bond**

Mae Dr Erika Guttmann-Bond yn ddarlithydd lled-ymddeoledig mewn Archeoleg. Bu gynt yn addysgu ym Mhrifysgolion Reading, Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a bu ganddi Gadair mewn Archeoleg Dirwedd yn y Vrije Universiteit, Amsterdam.

Yn sgîl y llifogydd, tswnamiau, trychinebau naturiol a welwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar, rhoddwyd cryn sylw I fethiant y dulliau rheoli tir a arferid yn y gorffennol, a'r effaith andwyol ganlyniadol ar yr amgylchedd. Ond mae llwyddiannau'r gorffennol yr un mor bwysig. Gall sustemau hynafol brofi'n fwy gwydn a hefyd yn fwy cynaliadwy yn wyneb eithafion amgylcheddol.

Yn gynyddol, mae technegau amaethyddol cynnar yn cael eu hailddarganfod a'u rhoi ar waith. Yn ei sgwrs, dadleua Dr Guttmann-Bond fod y mwyaf effeithiol ymhlith sustemau rheoli tir yn aml yn gyfuniad o dechnegau hynafol a chyfoes.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi yn Ystafelloedd Oriel ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, a £10 wrth y drws.

Er mwyn manteisio ar y pris gostyngedig hwn, llenwch y daflen isod os gwelwch yn dda a'i anfon gyda'ch siec erbyn dydd Gwener Awst 12 at:
**Ann Saer, 15 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QA** annsaer15@gmail.com
**Ffôn: 029 2056 2756.** I arbed costau postio, ni fydd cydnabod. Dewch yn llu!

…………………………………………………………………………………………………

**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**

**Dr Erika Guttmann-Bond: 'The Archaeology of Sustainable Agriculture'**
**Mercher 17 Awst 2016 yn Ystafelloedd Oriel, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

Carwn i chi gadw……….l(l)e ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £…….........
(yn daladwy i Gyfeillion Amgueddfa Cymru).

Enw(au)…………………………………Cyfeiriad………………………………………………..

…………...............................................................................................Cod Post……….........

Ffôn………………………….................................... ebost……………………………………

Cadarnhaf fy aelodaeth o Gyfeillion Amgueddfa Cymru ………..